**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 24 GORFFENNAF 2018 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn Bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mrs Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon); a Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygon)

**Amser Dechrau:** 12:50
**Amser Gorffen:** 16:15

**Ymddiheuriadau:** Mr David Powell a Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr).

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Briffiwyd y Comisiwn gan y Cadeirydd ar y cyhoeddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â'r Papur Gwyrdd ar ddiwygio llywodraeth leol i'r perwyl bod yr uno statudol arfaethedig wedi'i ddiddymu a bod gweithgor wedi'i sefydlu i archwilio strwythurau i'r dyfodol, i adrodd arnynt yn 2019. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r rhaglen arolygon etholiadol yn parhau gan na fyddai'r canlyniad yn effeithio ar y cylch presennol. Dywedodd y Cadeirydd hefyd y gellid gofyn i'r Comisiwn gynnal arolygon o'r holl gynghorau cymuned a chynghorau tref, a bod yr arolygon yn debygol o gael eu cynnal yn 2020.

2.2. Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai Dan Mosley yn gadael y Comisiwn ym mis Medi, a llongyfarchwyd ef ar ei benodiad i swydd newydd. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei holl waith yn ystod ei gyfnod yn y Comisiwn, a dymunodd yn dda iddo i'r dyfodol.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar y canlynol,

3.2. Cofnod 4.2, i ychwanegu y byddai'r cais am Wobr Iechyd y Gweithle Bach yn cael ei wneud erbyn 31 Mawrth, 2019, a

3.3. Cofnod 9.1, i nodi y gallai fod tanwariant posibl yng nghyllideb 2018/19 a allai fod yn destun ildio i Lywodraeth Cymru.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig Gorffennaf 2018 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- **(Mater 1) Gwobr Iechyd y Gweithle Bach** – cais yn yr arfaeth, i'w gyflwyno erbyn 31 Mawrth 2019.
- **(Mater 2) Prosiect Trawsnewid TGCh** – mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Soniodd y Rheolwr Cymorth Busnes am yr anawsterau o ran caffael darparwr i fudo'r wefan.
- **(Mater 3) Adeilad** – mae cynnydd wedi'i wneud ond yn disgwyl manylion ar y mater hwn.
- **(Mater 4) Polisïau Adnoddau Dynol** – roedd y gwaith o ddiwygio'r polisïau adnoddau dynol yn mynd yn ei flaen.
- **(Mater 5) Buddsoddwyr mewn Pobl** – diolchwyd i'r staff am ddychwelyd 100% o'r arolygon cyn asesiad. Roedd cyfweliadau gyda staff wedi'u trefnu ar gyfer 31 Gorffennaf 2018.
- **(Mater 7) Adroddiad Blynyddol** – mae'r adroddiad hwn yn aros am i'r cyfrifon gael eu cwblhau.

## 5. Adeilad

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Gorffennaf 2018 gan y Prif Weithredwr.

5.2. **Nodwyd** a **Derbyniwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 6. Arolwg Etholiadol Gwynedd

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Gorffennaf 2018 gan y Swyddog Arolygon.

6.2. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 (cynigion drafft) ar gyfer Arfon sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Arllechwedd, Bethel a'r Felinheli, Cwm-y-Glo, Deiniolen, Llanrug, Penisa'r-waun, Tre-garth a Mynydd Llandygái ac Y Faenol.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cadw cysylltiadau cymunedol gymaint ag y bo modd.
- Mae'n bodloni cynrychiolaeth Cyngor Cymuned Llanrug.
- Mae'n cadw 60% o gynllun y Cyngor.

6.3. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 3 ar gyfer Bangor sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Canol Bangor, Dewi, Dwyrain Bangor a Glyder

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol ar draws y ddinas.
- Mae'n sicrhau bod y cynigion wedi'u diogelu'n gadarn at y dyfodol yn unol ag amcanestyniadau 2022.
- **Cytunodd** y Comisiwn y newidiadau ôl-ddilynol arfaethedig i drefniadau etholiadol Cyngor Dinas Bangor (yn unol â'r cynigion drafft).

6.4. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 3 (cynigion drafft) ar gyfer Bethesda sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Gerlan, Ogwen a Rachub.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu wardiau un aelod ar draws yr ardal.
- Mae'n defnyddio'r cynllun a ddarparwyd gan y Cyngor Sir, gyda mân addasiadau.
- Mae'n defnyddio ffiniau hawdd eu hadnabod o fewn yr ardal.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol gryn dipyn yn yr ardal.

- **Cytunodd** y Comisiwn y newidiadau ôl-ddilynol arfaethedig i drefniadau etholiadol Cyngor Cymuned Bethesda (yn ymwneud â threfniadau Opsiwn 3).

6.5. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 1 (cynigion drafft) ar gyfer Caernarfon sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Cadnant, Canol Tref Caernarfon, Hendre, Menai (Caernarfon) a Pheblig.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu wardiau un aelod ar draws y dref.
- Mae'n defnyddio'r cynllun a ddarparwyd gan y Cyngor Sir.
- Mae'n defnyddio ffiniau hawdd eu hadnabod o fewn yr ardal.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol gryn dipyn yn yr ardal.
- **Cytunodd** y Comisiwn y newidiadau ôl-ddilynol arfaethedig i drefniadau etholiadol Cyngor Tref (Frenhinol) Caernarfon (yn ymwneud â threfniadau Opsiwn 1).

6.6. Cytunodd y Comisiwn Opsiwn 2 (cynigion drafft) ar gyfer ardal Clynnog-Llanllyfni sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Clynnog, Llanllyfni, Llanwnda, Nefyn, Pen-y-groes, Tryfan, Waunfawr, Y Bontnewydd, Y Groeslon, Yr Eifl

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu wardiau un aelod ar draws y dref.
- Mae'n defnyddio cynigion a ddarparwyd gan y Cyngor Sir yn ymwneud ag ardal Nebo.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.

6.7. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 3 ar gyfer ardal Pen Llŷn sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Abererch, Aber-soch gyda Llanengan, Criccieth, De Pwllheli, Efailnewydd a Buan, Gogledd Pwllheli, Llanbedrog gyda Mynytho, Llanengan, Llanystumdwy, Morfa Nefyn a Thudweiliog a Phen draw Llŷn.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n parchu cysylltiadau cymunedol.
- Mae'n gyson â chynrychiolaethau a dderbyniwyd ar draws yr ardal.
- Mae'n gyson â barn y Cyngor.

6.8. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 1 (cynigion drafft) ar gyfer Ffestiniog sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Bowydd a Rhiw, Diffwys a Maenofferen, Teigl.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cadw tair ward un aelod o fewn y gymuned.
- Mae'n cadw cynllun arfaethedig cyfan y Cyngor, gyda mân ddiwygiad i'r newid ffin arfaethedig.
- **Cytunodd** y Comisiwn y newidiadau ôl-ddilynol arfaethedig i drefniadau etholiadol Cyngor Tref Ffestiniog (yn ymwneud â threfniadau Opsiwn 1).

6.9. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 3 (cynigion drafft) ar gyfer ardal Harlech sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Abermaw, Brithdir a Llanfachreth, Y Ganllwyd a Llanelltyd, Dolbenmaen, Dwyrain Porthmadog, Dyffryn Ardudwy, Glaslyn, Gorllewin Porthmadog, Harlech a Llanbedr, Penrhyndeudraeth a Trawsfynydd.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw nifer uchel o'r trefniadau presennol a'r mwyafrif o gynllun y Cyngor.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Mae'n gyson â'r mwyafrif o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r ardal.

6.10. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 3 (cynnig diwygiedig y Cyngor Sir) ar gyfer Dolgellau sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

De Dolgellau a Gogledd Dolgellau.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu ar gyfer trefniadau un aelod
- Mae'n defnyddio'r cynllun fel y'i darparwyd gan y Cyngor yn ei gynnig diwygiedig.
- Mae'n defnyddio ffiniau hawdd eu hadnabod yn yr ardal.
- Mae'n darparu gwelliannau bach i gydraddoldeb etholiadol.
- **Cytunodd** y Comisiwn y newidiadau ôl-ddilynol arfaethedig i drefniadau etholiadol Cyngor Tref Dolgellau (yn ymwneud â threfniadau Opsiwn 3).

6.11. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 1 (cynnig diwygiedig y Cyngor Sir) ar gyfer Meirionnydd sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Aberdyfi, Bro Dysynni, Corris a Mawddwy, Arthog a Llangelynnin, Gorllewin Tywyn a Morfa Tywyn.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n creu trefniadau un aelod ar draws y rhanbarth cyfan.
- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Er bod un ward lle ceir cynrychiolaeth etholiadol sydd dros 25% o’r cyfartaledd sirol arfaethedig, mae’r opsiwn hwn yn parchu cysylltiadau lleol o fewn yr ardal.

6.12. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 3 ar gyfer Y Bala sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Y Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol, ac yn parchu’r cysylltiadau cymunedol lleol a’r ffin fel y gofynnwyd gan Gyngor Cymuned Llangywer.
- Mae’n cydnabod natur wledig y cymunedau hyn a’r gwaith y maent yn ei wneud ar hyn o bryd ar draws y pum ardal.

6.13. **Cytunodd** y Comisiwn ar enwau’r wardiau etholiadol arfaethedig i’w cynnwys yn yr adroddiad argymhellion terfynol. Bydd drafft o’r Adroddiad Argymhellion Terfynol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Comisiwn. **Gweithredu: Swyddog Arolygon**

## 7. Arolwg Etholiadol Blaenau Gwent

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 04 Gorffennaf 2018 gan y Swyddog Arolygon.

7.2. **Nodwyd** yr adroddiad cyfan gan y Comisiwn, ac yn amodol ar ychydig o fân ddiwygiadau gan gynnwys ychwanegu De Glynebwy at y rhestr o wardiau heb eu newid, penderfynwyd **Derbyn** yr adroddiad ac enwau’r wardiau arfaethedig.

7.3. Bydd y Swyddog Arolygon yn dechrau’r broses sicrhau ansawdd ac yn paratoi i gyhoeddi’r adroddiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## 8. Prawf Cynllun Parhad Busnes 2018-19

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Gorffennaf 2018 gan y Rheolwr Cyllid. Adroddwyd bod pob un o'r diwygiadau gofynnol a nodwyd o ganlyniad i'r prawf wedi'u gweithredu erbyn hyn.

8.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 9. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Gorffennaf 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid adolygu risg CR6 yn ymwneud â phrydles yr adeilad yn y cyfarfod nesaf pan fyddai syniad cliriach o'r sefyllfa.

9.3. **Cytunodd** y Comisiwn i newid CR7 i adlewyrchu'r sefyllfa newydd mewn perthynas â'r newid posibl i ad-drefnu llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet. **Nodwyd** mai'r brif risg i'r Comisiwn nawr oedd uno gwirfoddol posibl awdurdodau lleol a oedd yn llai difrifol ac y gallai ddod yn risg hirdymor. **Cytunwyd** y gellid dileu camau gweithredu lliniaru blaenorol erbyn hyn ac eithrio'r cam gweithredu lliniaru cyntaf o dan gam 1, a fyddai'n cael ei newid i ddweud y byddai'r Comisiwn yn aros am hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â chynigion yn y dyfodol a newidiadau posibl, ac ail gam gweithredu lliniaru cam 3 yn ymwneud â staff ymarferiad JEGS a fyddai'n cael eu cadw.

9.4. **Cytunwyd** hefyd y gellid lleihau graddfa risg CR7 nawr hefyd. Byddai'r risg gynhenid yn cael ei lleihau o 5/4 i 5/3 a byddai'r risg weddilliol yn cael ei lleihau o 5/4 i 4/2

9.5. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Comisiwn, yn amodol ar y diwygiadau.

## 10. Adroddiad ar y Gyllideb

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Gorffennaf 2018 gan y Rheolwr Cyllid. Gofynnodd y Comisiwn am i wariant yn erbyn cronfeydd cyfalaf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect TGCh yn cael eu monitro ar wahân i wariant yn erbyn cyllid Cymorth Grant y

Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai hyn yn cael ei weithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

10.2. **Nodwyd** a **Derbyniwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 11. Adroddiad Cynnydd y Prosiect Trawsnewid TGCh

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Gorffennaf 2018 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

11.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 12. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Gorffennaf 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

12.2. **Cytunwyd** i ychwanegu risg bellach at y Gofrestr Risg Arolygon. Un risg a nodwyd oedd y diffyg ymgysylltiad posibl ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Y cam gweithredu lliniaru fyddai ceisio trafod pwysigrwydd yr awdurdod yn cydweithredu yn ystod y broses arolygon gyda'r Prif Weithredwr.

12.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 13. Calendr Digwyddiadau

13.1. **Nodwyd** y calendr gan y Comisiwn.

## 14. Unrhyw Fusnes Arall

14.1. Nid oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 21 Awst 2018 am 8:30**